



Cam 4: Rysáit bara sylfaenol

Cynhwysion

- 500g o flawd bara gwyn cryf
- 7g burum gweithredu cyflym sych (1 pecyn)
- 1 llwy de o halen
- 2 lwy fwrdd o olew olewydd / hadau rêp
- 300ml o ddŵr cynnes

Dull

1. Edrychwch ar y glorian a chyfrifwch ble mae angen i'r deial fod ar gyfer pob maint cynhwysyn ac yna pwyswch eich cynhwysion yn ofalus.
2. Paratowch y cynhwysion perlysiau a llysiau. Golchwch a thorri nhw yn ddiogel, gan ddefnyddio'r dull y mae eich athro wedi'i fodelu.
3. Rhowch y blawd, y burum a'r halen i mewn i bowlen fawr a'i gymysgu â'ch dwylo.
4. Ychwanegwch eich cynhwysion sych ychwanegol.
5. Ychwanegwch yr olew.
6. Trowch y dŵr i mewn yn raddol i wneud toes meddal.
7. Ychwanegwch eich cynhwysion gwlyb ychwanegol.
8. Trowch y toes allan ar arwyneb ag ychydig o flawd arno, ei rannu'n gyfartal ymhlith aelodau'ch grŵp a thylino'ch toes am 5 munud nes nad yw bellach yn teimlo'n ludiog, gan ddefnyddio'r dull y mae eich athro wedi'i fodelu.
9. Siapiwch eich toes i siâp o'ch dewis. Gadewch iddo brofi mewn lle cynnes am rhwng 30 munud ac 1 awr. Bydd eich toes yn cynyddu mewn maint yn ystod yr amser hwn. Allwch chi egluro pam?
10. Cynheswch y popty i 200C/ffan 180C/nwy 6 a'i bobi am 20-25 munud nes bod y bara wedi codi ac yn euraidd.
11. Tapiwch waelod eich bara i sicrhau ei fod wedi'i goginio. Dylai swnio'n wag.
12. Gadewch iddo oeri ar rac oeri